Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1988

Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

Cyfnod Hwyaf heb Awdurdodiad Llys

Cyfnod hwyaf mewn llety diogel heb awdurdodiad llys

2.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) a (3), y cyfnod hwyaf, na chaiff awdurdod lleol gadw plentyn mewn llety diogel y tu hwnt iddo heb awdurdodiad y llys, yw cyfnod cyfanredol o 72 o oriau (pa un ai'n olynol neu beidio) mewn unrhyw gyfnod o 28 diwrnod.

(2) Os—

(a) cedwir plentyn mewn llety diogel ar unrhyw adeg rhwng 12 canol dydd ar y diwrnod cyn gŵyl gyhoeddus neu ddydd Sul a 12 canol dydd ar y diwrnod ar ôl yr ŵyl gyhoeddus neu'r dydd Sul,

(b) yn ystod yr amser hwnnw, byddai'r cyfnod hwyaf o 72 awr yn dod i ben, ac

(c) yn ystod y 27 diwrnod cyn y diwrnod y dechreuodd y cyfnod diweddaraf mewn llety diogel, roedd y plentyn eisoes wedi ei gadw mewn llety diogel am gyfnod cyfanredol o fwy na 48 o oriau,

estynnir y cyfnod hwyaf tan 12 canol dydd ar y diwrnod cyntaf nad yw'n ŵyl gyhoeddus nac yn ddydd Sul.

(3) Pan fo llys yn rhoi awdurdodiad i gadw plentyn mewn llety diogel, rhaid diystyru unrhyw gyfnod pan gedwid y plentyn mewn llety diogel cyn cyfnod yr awdurdodiad hwnnw, wrth gyfrifo'r cyfnod hwyaf mewn perthynas ag unrhyw gyfnodau dilynol mewn llety diogel ar ôl i'r cyfnod a awdurdodwyd gan y llys ddod i ben.